Arsyllfa High Point

Pan oedd y mileniwm yn agosáu roedden ni'n gwybod bod rhywfaint o gyllid ar gael ar gyfer cynlluniau a fyddai'n newid mannau lle'r oedd pobl yn byw, a'r hyn a wnaed yma oedd trawsnewid safle a arferai bod yn domen wastraff glo i'r hyn ydyw heddiw, sef parc gwyrdd hyfryd.

Gweithiodd yr artist Malcolm Robinson efo'r chwe chymuned gyfagos, sef pobl o Nelson, Ystrad, Ystrad Mynach, Maesycwmer, Hengoed, Llanbradach a Gelligaer. Ac mae pob braich yn anelu tuag at un o'r cymunedau hynny, ac mae holl syniadau'r gymuned honno, yn enwedig syniadau'r plant o fewn y gymuned a oedd yn dymuno mynegi eu hanes, neu sut roedden nhw'n teimlo am y parc nawr, mae'r holl bethau hynny wedi cael eu hymgorffori ym mraich y cerflun. Mae rhannau arian y cerflun sy'n ymestyn at yr wybren bob amser yn f'atgoffa o bibelli organ, felly mae rhywbeth urddasol am y peth arbennig hwn, a allai bron iawn fod yn offeryn cerdd ryfeddol.

Ond wrth gwrs, mae'n cael ei alw'n arsyllfa, ac rydych chi'n gwybod sut mae'r rhan fwyaf o arsyllfeydd yn eich gorfodi i edrych i fyny, wel yn rhyfedd ddigon, mae hwn yn gwneud i chi feddwl am edrych tuag at y ddaear.